Cyfres yr 20fed Ganrif.

RHYDDID, GWIRIONEDD CARIAD.

Yr Ymofynydd

Cyf. 11. Rhif .2] CHWEFROR, 1911. [Pris 2c.

CYNWYSIAD.

Ar Edyn Ffydd.
O Fon i Fynwy.
Y Beibl: Yr hyn yw a'r hyn nad yw.
Parch. Joseph Wood.
Y Ddirprwyaeth Eglwysig. R. J. Jones, M.A.
Ymson y Myfyriwr.
"Bywyd Iesu," gan Renan.
Priodasau.
Marwgofion.
Manion ac Hanesion.



Y GWIRIONEDD
A'CH RHYDDHA CHWI.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.

YR YMOFYNYDD.

Golygwyr—

T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul, a SARNICOL, County School, Abertillery.

Pris 2g. y mis; drwy y *Post*, 2s 6d y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau.

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygwyr erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed. Gyrer y Farddoniaeth i Sarnicol, County School Abertillery, Mon.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

TALIADAU.

E.P.J., Llanrwst; E.J., Pensarn; Parch. E.E.J., Bolton; J.B., Llwyneinon; Dr. D.J.D., Aberystwyth; J.J., Aberaman; J.J.D., Trecynon; M.R., Pentregwenlais; Mrs. J., Bettws; D.D., Gwardafolog; Parch. M.W., Moneyrea; D.D., Felinfach; J.D., Llanwnen; M.L., Cefncoed; Parch. D.G.R., Penybont; W.J.E., Caerfyrddin; W.P.W., Bangor; Miss D., Cellan; J.D., Llundain; P.P., Pencraig; S.E., Burry Port; J.D., Tylorstown.

Y CLEFYD AR Y IEIR.

PAHAM y goddefwch i'r gelyn yma i wneud y fath golled i chwi, pan y mae meddyginiaeth sydd wedi ei phrofi yn sicr o'i atal, o fewn eich cyrhaedd? Danfonwch am dano ar unwaith; fe fydd prawf o un blwch ohono yn well i chwi na tudalen o siarad.

1s. 10d. y blwch yn rhad drwy y post, neu dri am 5s.

ODDIWRTH Y GWNEUTHURWR—

John J. Davies, M.P.S., Chemist, Llanybyther.

—— APPLICATIONS FOR AGENCIES ENTERTAINED. ——

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y . . . Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth, deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] CHWEFROR, 1911. [CYF. XI.RHIF 2.

AR EDYN FFYDD.

POB UN YN EI IAITH EI HUN.

Tân, a nifwl a phlaned,
A bywyd y cynfyd pell :
Pysg cyntefig y moroedd
A dyn yn ei ogof hell :
A deddfau dynol, a harddwch
Wynebpryd o ryfedd ryw ;
Mae rhai a'i geilw'n Ddatblygiad,
Ereill a'i geilw'n Dduw.

Tarth ar linell y gorwel,
A glasnen uwchben y byd ;
Yr adar gwyllt ar ei hantur
A meusydd y melyn ŷd.
A mynwes y cwm a'r mynydd
Yn euraidd gan flodau byw ;
Mae rhai yn ei alw'n Hydref,
Ereill a'i geilw'n Dduw.

Fel tonnau ar draeth bwäog
A'r ieuanc loer yn wan :—
Dyhead yn ein calonau
Ymdona o hyd i'r lan
O fynwes rhyw fôr tragwyddol
Nas gwelwyd gan nebun byw :
Mae rhai yn ei alw'n Hiraeth,
Ereill a'i geilw'n Dduw.

Mam dros ei phlant yn newynu,
Milwr at angeu droes ;
Socrates a'r cwpan gwenwyn
A Iesu ar bren y Groes ;
A'r miloedd di-glod, di-enw,
Dros ereill a fuont byw ;
Geilw rhai ef yn Hunan-aberth,
Ac ereill a'i geilw'n Dduw.

—WILLIAM HERBERT CARUTH.
(EFELYCHIAD GAN S.)

O FON I FYNWY.

DYWED Wordsworth ei fod yn credu fod pob blodeuyn yn mwynhau'r awyr anadla. Mae yn dra sicr fod pob aderyn a phob anifail ieuanc yn teimlo fod bywyd yn werth ei fyw. Pwy na theimlodd ynni'r gwanwyn yn rhedeg drwy ei waed wrth glywed yr aderyn du yn canu am y tro cyntaf ar frigyn moel mis Chwefror?—

Canu mae fy hoff aderyn
Ar helygen yn y cwm,
Pan f'or caeau heb flodeuyn
A phob pren yn myn'd yn llwm.

Cana eto ryw ben bore
Pan f'or gwanwyn yn y coed,
Pan wna'r ŵyn a'r plant a'r blodau
I bob bryn anghofio'i oed.

Mae ieuenctyd fyth yn llon; ac y mae'r meddwl iach a diniwed yn cadw y llonder hwn hyd ddiwedd oes; nid yw'r galon ddedwydd byth yn heneiddio. Mae i alar ei le yn y byd; ond tyf blodau ar bridd y beddrod; myn bywyd newydd godi fyth hyd yn oed ar lwch y marw. Mae blodau'r dydd a sêr y nos yn aros yn dragywydd i loni ein bywyd:—

Nid yw'r nos, arwaf nos,
Yn difwyno glas y nefoedd:
Nis gall canrif o dymhestloedd
Ddatod pabell seren dlos.

Mae'r weithred o dywallt dagrau yn dangos fod natur wedi gorchfygu'r galar. Efallai mai'r amheuthyn mwyaf yw wylo—ac nid pawb sydd yn sylweddoli bod y fath beth yn bod a'r pleser o dywallt dagrau—"*the luxury of tears.*" Onid oes llawer merch yn myned i'r chwareudy, ac yn foddlon talu coron a rhagor am beth a eilw yn "*good old cry*"?

Nid lleddf ydyw nodyn y Cymro wedi bod erioed; prawf awyrgylch y Mabinogion fod Cymro'r canoloesoedd yn hoff o fywyd llawn lliwiau claer fel gardd Mai; yr oedd y gwr a greodd Olwen yn llawn nwyf ieuenctyd a hoenusrwydd mab naturiol Anian:—"A phan ei gwelodd gwisg o Sidan fflamgoch oedd am dani, a chadwyn o ruddaur a pherlau am ei gwddf. Gwynach oedd ei chroen nag ewyn y dòn. Cochach ei deurudd na'r ffuon cochaf. Gwynach ei bron na bron yr alarch gwyn. Harddach ei bysedd na blodau'r anemoni yn ymyl ffynon gweirglodd. Melynach ei phen na blodau'r banadl. Pwy bynag a'i gwelai, cyflawn f'ai o'i serch; p'le bynag y cerddai, codai pedair meillionen wen, am hyny y gelwid hi'n Olwen."

Nid oes greulondeb, na digter, na hagrwch yn anurddo llawer ar ein hen lenyddiaeth; y mae awyrgylch llawer o'r Mabinogion megys ffurfafen mis Medi; a rhyw dawelwch a thangnefedd euraidd yn gorphwys ar y tir; a dyn ac anifail ac anian mewn undeb â'u gilydd; megys y mae yn nyddiau mebyd pob dyn iach a aned erioed ar y ddaear.

Y mae bywyd y Mabinogion yn fy adgofio am yr awr-fynegydd *(sun-dial)* hwnw y sonia Hazlitt am dano, ac arno frawddeg Ladin-aidd o'r mwyaf soniarus a darawodd ar glust erioed :—

" Horas non numero nisi serenas " ;
" I count only the sunny hours " ;
" Nid wyf yn cyfrif ond yr oriau llon."

Nid yw'r dyn sydd yn arwain y bywyd llon yn cyfrif amser ond wrth faint a gynwys o'r da a'r dedwydd. Tu ol i bob cwmwl du mae'r meddwl iach bob amser yn gweled yr haul diddarfod yn tywallt ei belydrau o aur.

Y gwr *materol*, nas gwel ond y pethau celyd a chreulon sy'n gorwedd o'i gylch, hwnw sydd fwyaf tueddol i gymeryd golwg drist ar bethau; o leiaf dyna dystiolaeth athronydd o safle y diweddar Broff. W. James o Harvard. Yr *idealist*, fel Browning ac Emerson, sydd yn mynu gweled y da a'r dedwydd yn teyrnasu er gwaethaf pob hagrwch a drygioni; " *we fall to rise again* " ; " *hitch your waggon to a star* "—dyna eu hymadroddion hwy. Y mae hyd yn oed i henaint ei londer, yn ol athroniaetb Browning :—

Grow old along with me,
The best is yet to be—
The last of life, for which the first was made.

Y mae byd Dafydd Ap Gwilym yn llawn o nwyf ysgafn ieuenctyd; ac adar y gwanwyn yn canu ynddo, blodau haf yn gwenu, ac hyd yn oed eira'r gauaf yn awgrymu plu engyl o baradwys—a serch at brydferthwch meinwen, a chariad at natur, fel yr haul a'r lleuad yn pelydru dros yr oll :—

A'r eos ar îr wiail,
A'r fwyalch deg ar fwlch dail;
A'r fronfraith ddigrifiaith gref,
Ysginllwyth edn ysgafnllef;
Bardd coed, mewn trefgoed y trig,
A bronfraith ar îr brenfrig
Cyn y glaw yn canu'n glau
Ar las bonc irlwys bynciau;
A'r hedydd, aflonydd lais,
Cwcwll-lwyd edn cu call-lais,
Yn myned mewn lludded llwyr
A chywydd i entrych awyr;
Finau fardd rhiain feinir
Yn llawen iawn yn llwyn îr.

Plentyn natur oedd Dafydd, yn canu cân serch a bywyd mor naturiol a'r ehedydd yn esgyn awyr Ebrill. Câs ganddo goeg-grefyddwyr ei oes; y mynachod oent a'u bywydau megis beddau wedi eu gwyngalchu. Cais gan y *lleian* ddianc o'r gweddw-dy, gan wybod mai purach a naturiolach iddi ydoedd "crefydd y gwydd a'r gôg":—

Paid er Mair a'r pader main
A chrefydd myneich Rhufain;
Na fydd Leian y gwanwyn,
Gwaeth yw lleianiaeth na llwyn;
Dy grefydd, deg oreuferch,
Y sydd wrthwyneb i serch;
Gwarant modrwy a mantell
A gwardd wisg a urddai well.

Trowch i'r Mabinogion, a chwi a welwch y meillion gwyn yn ol troed Olwen, chwi a welwch Arthur yn teyrnasu yn ei rwysg, a chwi a gewch glywed adar Rhiannon yn canu. Yna gwrandewch ar delyn ein Dafydd Cymreig, nodau llon megys nodau'r gôg, a'r ehedydd a'r fronfraith yw ei nodau ef: mae gan hyd yn oed yr eos, yn ol Dafydd, ei nodyn ysgafn—onis geilw ef hi yn:—

Eos gefnllwyd ysgafnllef?

Ac yn wir dywed Coleridge nad oes nodyn lleddf o gwbl yn ei chân; eithr y Groegiaid sydd wedi peri i Philomel ganu fel meinir ar ol ei chariadlanc marw. Mwy hoffus clywed yr eos fel y clywodd un o'n beirdd diweddar hi:—

Nid gwylaidd nodau galar
Morwyn gu am rywun gâr
Yw swn hoff ei seiniau hi
Na thant hiraeth yn tori.

Na, llawenydd a lloniant—digymhar
Nodau gemog lifant
O'i mynwes yn llawn mwyniant,—anhysbydd
Ei dihefelydd nodau o foliant.

Mae'r natur ddynol yn hŷn nag un lywodraeth grefyddol; a myn dori allan yn ei hanian gynhenid er gwaethaf Pabyddiaeth a Phiwritaniaeth neu unrhyw gyfundrefn arall a fyn. Derfydd dynoliaeth pan dderfydd cariad mab a merch; a phan ddêl tristwch i deyrnasu dros y ddaear, megys rhew du y gauaf, naill ai bydd farw yr hil ddynol, neu tyr lloniant y galon lyffetheiriau'r cyfnod, a daw gwanwyn harddach nag erioed i wenu dros wyneb y byd.

Nis gall athroniaeth *pessimism* ddal tir am amser maith; mae tristwch a galar ac hunan-ddibrisiad yn groes i ddeddfau bywyd—hunanladdiad y genedl yw canlyniad naturiol gwaethafiaeth. Y genedl gref, lon ac hapus yw'r genedl sydd i oroesi pob cenedl arall

ar y ddaear. Dyna'n ddiamheu ddirgelwch mawr Japan yn y dyddiau diweddaf; mae holl nwyf a dedwyddwch ieuenctyd yn perthyn i'r genedl ryfedd hon. Nid yw yn flin gan wareiddiad; nid yw yn *blasé*, ys dywed y Ffrancwr.

Mae'n bosibl fod Cymro'r bymthegfed ganrif wedi myned yn rhy bell yn ei londer, wedi cario digrifwch mor bell a bod yn rhyfyg; dywed Mr. O. M. Edwards mai—"Cymro nwyfus oedd Cymro'r bymthegfed ganrif, gwr hynodid gan ei awen, ei haelioni, a'i lawenydd; nid oedd yn bur yn ei awen, nac yn ddoeth yn ei haelioni, nac yn gall yn ei lawenydd. 'Tri pheth a wnant ddyn y chwardd pawb am ei ben—gwychder Ffrainc, ffrost Gwyddel, a llawenydd Cymro.' Un anoeth, direol oedd. Symir ein colliadau mewn un o'r trioedd hyn: Tair cynheddf gynhenid y dylai ef eu gwellhau—rhy lew, rhy lariaidd, a rhy lawen."

Llawen fu anian y Cymro hyd ddyddiau Morusiaid Mon. Mae swn serch, a digrifwch, a hoenusrwydd yn eu caniadau hwy. Gwrandewch arnynt—

Er a welais dan y ser
O lawnder, glewder gwledydd,
O gwrw da, a gwŷr i'w drin,
A gwin ar fin afonydd;
Gore bîr a gore bwyd
A ranwyd i Feirionydd.

Eto:—

Dy fanwallt dros dy fynwes, sy'n tanu'n llaes fel llin,
Pob modfedd rinwedd raenus yn drefnus wedi ei drin;
Tra byddo ffansi ffyddlon yn nghalon gyfrin gwr,
Ceir cariad diderfyniad drwy sail osodiad siwr.

Ond disgynodd cysgod Piwritaniaeth fel nifwl hydref ar dês hafaidd hen loniant Cymru. Nid dros byth y pery'r haf; mae'r awyrgylch yn myned yn rhy amhur os deil i dywynu'n rhy hirfaith; rhaid wrth hydref a gauaf i wrthweithio ei effeithiau. Aeth canu maswedd i ymylu ar ganu'n amhur; gwelir arwyddion o hyn yn nghaniadau digrif Huw Morus.

O ddyddiau'r Morusiaid hyd amser Islwyn y nodyn lleddf a glybuwyd amlaf yn Nghymru; swn difrifwch dwfn y Diwygiad furmurai drwy lenyddiaeth ein gwlad. Perygl ysgafnder yw myned yn rhyfyg, a pherygl difrifwch yw troi yn rhagrith. Cododd Twm o'r Nant i wawdio twyll a rhagrith ei oes.

Un o blant natur oedd Twm, fel derwen a dyfasai ar un o lethrau Cymru. Adroddir llawer ystori ddigrif am dano. Cofir am yr englyn i'r Beili a ysgrifenodd mewn sialc ar gareg fedd oedd yn gerfio:—

Heliwr a boliwr yw'r beili,—a labrwr
Hyd lwybrau trueni:
Aeth ganwaith, do werth gini
Dew faedd d—— i dy fol di.

Un tro yr oedd yn dychwelyd o ffair Dinbych, a gofynai rhyw bobl iddo, "Beth oeddan nhw'n roi am y tatws yn Ninbych heddyw, Thomas Edwards?" "Sachau," meddai'r hen fardd gan fyned yn mlaen mor ddifrifol a phe wedi dweyd ei bader.

Ond hyd yn oed yn ystormydd aruthrol diwygiadau Cymru, ac yn merw pregethu a chymanfaoedd canu mae y nodyn llon yn parhau i arddangos ei hun. Mewn ffaith y pregethwr yw *humorist* Cymru wedi bod. Pwy na chlywodd am Dafydd Ifans, Ffynonhenry, a Rhys Davies y Glun Bren? Nid yw hyd yn oed Per-ganiedydd Cymru uwchlaw penill digrif. Yr wyf yn dyfynu un sydd wedi aros yn fy nghof er's blynyddau lawer: penill a wnaeth yr hen Williams yn lle derbyneb (*receipt*) am rywbeth a'i gilydd i un o'r enw Sali Stringol:—

'R wy'n rhyddhau Sali Stringol,
Y wraig a'r natur fawr,
O bob rhyw ddyled imi—
O Noah hyd yn awr;
A phan y delo'r diwedd,
Dymunaf iddi hi—
Y gwnaiff hi hedd â'r nefoedd,
Fel y gwnaeth hedd â mi.

Nid oes dim o hynodion Hen Bregethwyr Cymru heb fod yn wybyddus i bawb; y maent wedi cael eu hadrodd drachefn a thrachefn ar aelwydydd Cymru. Y mae llawer o'r hen ystorïau hyn yn rhy arw i fod yn gydfynedol â chwaeth y dyddiau hyn; o'r braidd nas d'wedem fod pregethau yr Hen Ddafydd Ifans yn ymylu ar fod yn rhyfygus yn ol ein safon ni; byddai pregeth Jonah, a'r desgrifiad o'r hen broffwyd yn myned drwy Ninefeh a "scâls scadan drosto i gyd," yn gwneud i ambell i hogen findlws droi ei thrwyn i fynu y dyddiau hyn. Pwy nag sydd wedi clywed am yr enwog Siencyn Penhydd yn pregethu yn Sir Gaerfyrddin ar brydnawn Sul, ac ar ddiwedd y bregeth yn tynu dyrnaid o hen wair llwyd allan a'i ysgwyd i lawr i'r côr mawr ar ben y rhagrithiwr o flaenor oedd wedi rhoi y fath sothach o flaen ei geffyl, gan haeru fod crefydd rhai pobl gyn llwyted a'r dyrnaid gwair hwnw! A'r enwog Rhys y Glun Bren yn pregethu ar ben *hogshead*, ac ar uchelion ei hwyliau yn diflanu'n ddisymwth i'r gasgen; neu hanes y forwyn yn ei dynu allan yn grynswth o'i wely gan dybied mai gafaelyd oedd yn nghoes y *warming pan!*

Dyfynaf hanesyn o "Myfyrion ar Fin Afonydd" y Parch. D. Stanley Jones sydd genyf wrth law am un John Williams (Ioan Ap Ioan), gweinidog ys llawer dydd yn Aberduar ar gyffiniau Ceredigion a Chaerfyrddin: "Yr oedd un tro yn ffair Llanybydder yn gwerthu mochyn. Bu yno fargeinio taer o bob tu: Mr. Williams yn taeru fod y mochyn yn fwy o werth na chynygiad y prynwr; hwnw, o'r tu arall, yn taeru ei fod yn cynyg digon. Beth bynag, ymadawsant heb daro'r fargen. Digwyddodd fod brawd lled bwysig, yn perthyn i'r frawdoliaeth yn Aberduar, yn gwrandaw yr ymgom o'r dechreu i'r diwedd; a chan fod y prynwr hefyd yn wrandawr selog yn y lle, gofidiai na fuasai Mr. Williams wedi rhoddi ffordd. Wedi i'r prynwr

droi ei gefn trodd yr aelod at y gweinidog, gan ddywedyd, 'Mr. Williams, yr ydych wedi gwastraffu nerth ac amser rhyfeddol i siarad am y swm o haner coron'—canys dyna oedd y gwahaniaeth rhyngddo ef a'r prynwr. 'Frawd bach,' oedd yr ateb parod, 'fe ddywedais i gymaint a hyna ddeng waith wrtho ti a dy sort am *swllt* cyn hyn.' Am yr un hen bregethwr dywedir i berthynasau ryw hen wraig o'r enw Lettis ofyn iddo wneud penill i'r ymadawedig. Addawodd yntau wneud ar yr amod iddynt beidio ffromi, a dyma'r penill:—

Yma gorwedd Lettis hagar
Obry'n isel yn y ddaear;
Os câr hi'r bedd fel gwnaeth ei gwely,
Hi fydd yr ola' i adgyfodi."

Y mae llawenydd syml a naturiol plentyn yn troi yn "*sense of humour*"—yn arabedd yn y dyn llawn dwf; a gwae'r neb na fedd y synwyr hwn. Y mae'r un peth yn wir yn mywyd cenedl; yn ddiweddar yn ei hanes y daw y "*sense of humour*" i'w lawn ddadblygiad. Myn y Sais nad oes "*sense of humour*" gan y Cymro; o leiaf yr wyf wedi ei glywed yn haeru hyny droion; ond mae enwi Lloyd George yn ddigon i wrthbrofi yr haeriad hwn. Clywsoch i gyd am atebiad y Canghellor i ryw *heckler* yn y Gogledd a fynai ofyn i'r areithiwr beth oedd wedi dod o'r cart asyn a fyddai ei dad-cu yn arfer yru o gwmpas?—gan geisio, wrth gwrs, daflu sarhad ar y Cymro enwog. "Nis gwn," atebodd Lloyd George, "beth sydd wedi dod o'r *cart*, ond mae'r asyn yma heddyw mor fyw ag erioed." Caniata pawb fod y Gwyddel yn ffraeth—ond yn fynych heb yn wybod iddo ei hun, fel hwnw oedd yn dweyd wrth gyfaill, "If ever you happen to come within a mile of my house, you must stay there." Druan o'r Ysgotyn, pa mor aml y dywedwyd fod yn rhaid cyflawni *surgical operation* ar ei benglog cyn cael *joke* i mewn iddo; ond cam o'r mwyaf a Sandy yw dweyd hyn am dano; un o'r gwŷr mwyaf ffraeth a gyfarfyddais erioed oedd Ysgotyn, ac onid Albanwr—Harry Lauder—yw *comedian* mwyaf y dydd heddyw?

Y ffaith yw fod pob cenedl yn ffraeth yn ei dull ei hun; anodd iawn yn fynych ydyw cyfieithu *wit;* mae ei blas neillduol yn darfod rywfodd wrth ei chyfieithu o'r naill iaith i'r llall. Yr ydych yn ddiamheu wedi sylwi mor hynod o ddifrifol y mae tramorwyr bob amser yn ymddangos i ni; anodd iawn dychmygu yr Arab neu yr Indiad yn "cracio *joke*"; ond yn ddiamheu y maent, yn eu ffordd eu hnnain. Ac y mae'r hyn a bair chwerthin i un genedl yn ymddangos yn beth hollol ffol a disynwyr i'r llall. Nid wyf yn siwr y medr y Cymro ddeall yn iawn ddull yr Americanwr o greu chwerthin; fel Russell Lowell yn desgrifio dyn du *duach* na'r cyffredin—"He was so black that charcoal left a chalk-mark on him"; neu ffraethebwr arall yn ei ffug-ddarlith yn desgrifio mynydd: "Ladies and gentlemen," meddai, "I beg to inform you that the highest part of this mountain is the top."

Croes iawn yn fynych i chwaeth y Cymro ydyw ffraethineb yr enwog Mark Twain; er engraifft, ei ddesgrifiad o'r gwr hwnw a dynwyd i mewn i'r rhodau mewn *carpet factory*, "and was woven out into 13 yards of Turkey carpet," a'r helbul fu ar ei weddw i'w gladdu!

Y mae un peth y dylem fod yn ddiolchgar am dano; ofer ceisio gwneud *puns* yn yr iaith Gymraeg; waith nid oes Gymro mor ffol a chwerthin ar ffurf o arabedd mor isel a hon. Ac eto mae'r math hwn wedi llanw lle pwysig yn llenyddiaeth y Sais. Pwy nag sydd wedi darllen Tom Hood, er engraifft?—

His death which happened in his berth
At forty odd befell,
So they went and told the Sexton,
And the Sexton tolled the bell.

Cathl y gair mwys gan Peter Lewis yw'r unig beth yn y Gymraeg sydd a dim o'r fath beth ynddi:—

Arferol gan bob merch a welis
Am ei breichiau wisgo llewis,
I'r gwrthwyneb dyro dithau—
Am dy lewis gwisg dy freichiau.

Anfadwaith o'r mwyaf erchyll fyddai rhywbeth tebyg i hyn yn y Gymraeg:—

Paham y dylid cael digon o goed o'r môr?—
Am ei fod yn *'allt!*

Efallai mai'r Cymro sydd yn ceisio siarad Saesneg, neu'r Sais sydd yn ceisio siarad Cymraeg, gynyrcha ddigrifwch mor amled a dim yn Nghymru. Wele rai engreifftiau:—

"Coes morthwyl" leg of the hammer,
"Llif yn yr afon" a saw in the river,
"Codais ar fy eistedd" I got up on my sitting,
"Yr oedd y gwr yn lladd gwair wrth dalcen y ty" my husband was out killing the hay by the forehead of the house."
"Caseg y nos" nightmare.

Wele gyfieithiad o'r Saesneg i'r Gymraeg o hen rigwm, wedi ei wneud gan ryw löwr o Gwm Rhondda, gallsem feddwl:—

David with a little stone,
No bigger than a button,
Knocked Goliath to the ground
As dead as any mutton.

Dafydd gyda chareg fach,
Ddim llawer mwy na bwtwn,
Fwrodd Goliath hyd y llawr
Mor farw a chig llwtwn.

Clywais am hen wr o Sir Aberteifi oedd yn arfer myn'd i'r cynhauaf gwair i Sir Henffordd bob blwyddyn. Un tro yr oedd wedi myn'd a dau neu dri eraill o Gymry unieithog gydag ef. Galwasant yn y fferm yr arferai yr hen Gardi weithio arni, ac aeth ef i ofyn b'le oedd y meistr, a dywedodd un o'r gwasanaethyddion wrtho, "*He is out in the meadows.*" "Be mae e'n weyd, achan?" gofynai'r lleill wrtho, gan edrych i fynu arno ef fel eitha Sais ac ysgolor. "Mae ar ben am waith fan hyn, *boys*," atebodd, "mae'r gwas yn gweyd fod gwr y ty wedi myn'd i'r *madhouse!*"

Nis gellir dweyd fod yr elfen duchanllyd yn gref iawn yn y Cymro diweddar; dichon fod ei natur yn rhy dyner a chariadus i'r elfen wenwynig hono; ond yr ydym eisoes wedi crybwyll Twm o'r Nant fel meistr ar y grefft, a d'wedir ddarfod i Dafydd Ap Gwilym ladd un dyn a'i watwareg finiog. Cymerwn engraifft Bardd Cwsg:—"Gwelwn aml Goegen gorniog fel llong ar lawn hwyl, yn rhodio megys mewn Ffrâm, a chrys Sirp Pedler o'i chwmpas, ac wrth ei chlustiau werth tyddyn da o berlau; a rhai oedd yn canu i gael canmol eu llais, rhai'n dawnsio i ddangos eu llun; eraill oedd yn paentio i wella eu lliw; eraill wrth y drych er's teirawr yn ymbincio, yn dysgu gwenu, yn symud pinau, yn gwneud muanudie ac ystumiau."

S.

Y BEIBL: YR HYN YW A'R HYN NAD YW.

Gan y Parch. Joseph Wood.

Penod VI.—(Parhad).

Ysprydoliaeth.

I. Naturioldeb. Wrth naturioldeb meddyliaf yr hyn sydd yn rhwydd, syml a gwreiddiol. Pobpeth sydd ag ôl trafferth arno, pobpeth celfyddydol, pobpeth diflas, a phobpeth nad yw ond adlais o rywbeth arall—cauir y rhai hyn oll ar unwaith allan o ddosbarth yr ysprydoledig. Arwydd arbenig o ysprydoliaeth yw na chaethiwir hi gan reol, nac arferiad na chredo, ond ei bod yn hytrach yn myn'd yn ol tuhwnt i'r rhai hyn at deimladau syml calon dyn, at reddfau a chyngreddfau y natur ddynol a hono heb ei llygru. Mae yn rhydd, mae hefyd yn syml. Ni thrin ag agweddau tywyll o feddwl ydynt

dros amser yn unig, ac ni astudia ystrywiau ymadrodd. Siarad iaith gyffredinol y galon ddynol. Yn mhellach, y mae yn wreiddiol, ond nis gŵyr byth *sut*. Oblegyd nis gŵyr athrylith un amser beth yw dirgelwch ac achos ei chynyrchion tlysaf; daw ei meddyliau goreu iddi fel rhuthrgyrchau o oleuni, a'r goleuni newydd rydd i'r byd wedi ei ddarganfod ac nid wedi ei ddyfeisio y mae. Tybiaf na fu erioed eto waith ysprydoledig y gallasai yr awdwr esbonio ei darddell. Yr oedd yna ryw lewyrchiad, ryw gynhyrfiad, ryw awgrym o'r uchelder, a siaradwyd y gair losga yn dragywydd mewn llythyrenau o dân ar ael y ffurfafen foreu. Mae'n wir na ddaeth y pethau yma i fodolaeth heb ymdrech ar ran dyn; ond nis gall unrhyw faint o ymdrech dynol gyfrif am danynt na'u cynyrchu. Cydnabydda pob gwir feddyliwr mai anrhegion yw ei feddyliau. Gweithia i'w cyrhaedd; ond nid canlyniad gwaith yn unig yw eu cyrhaeddiad. Mae ganddo ei dymhorau sych pan nad yw ei holl waith i un pwrpas, ac yna wed'yn fe ddaw adnewyddiad o fywyd a goleuni, ond o bwy ffynonellau pell nis gŵyr, oddieithr nad yw y darddell ynddo ei hun, pa bryd bynag y mae yn wir wreiddiol. Yn awr, mae yna wedi bod ddynion mewn gwahanol oesau ac mewn gwahanol ranau o'r byd, eneidiau o deithi mawr, cadarn mewn iawnder, wedi eu donio a'r gallu i ddeall a rhagweled y da, y rhai ydynt wedi canfod yn llawer gwell na'u cyd-ddynion ddirgelwch amlwg y byd; dynion ydynt wedi bod yn fwy dwys argyhoeddedig o bresenoldeb a gallu Duw, ydynt wedi byw yn fwy cyson mewn cymundeb a Thad yr ysprydoedd, ydynt wedi siarad gydag awdurdod—yr awdurdod berthyn i ddoethineb, cymeriad, gallu i ddeall, a darostyngiad yr hunan i ewyllys Duw. Mae wedi bod yn y dynion hyn deimlad fod eu meddyliau yn cael eu hawgrymu iddynt o'r uchelder. Nid eu heiddo hwy oedd y gwirionedd, eithr yn hytrach darganfyddiad, rhodd, a syndod iddynt eu hunain yn ogystal ag i eraill. Nid yw dyn felly yn berchen arno'i hunan; mae fel pe wedi ei feddianu gan allu cryfach na'i ewyllys, tuhwnt i'w reolaeth a mwy na'i ddychymyg. Rhaid cadw'r elfen yma o naturioldeb mewn cof os ydym am enill drychfeddwl cywir o'r hyn yw ysprydoliaeth. Nid yw bob amser yn bresenol mewn dyn: gâd ef ambell waith. Mae yr hyn ddywedodd yr hen fardd Herrick yn darawiadol:

"It is not every day that I
Fitted am to prophesy;
No, but when the spirit fills
The fantastic panicles,
Full of fire, then I write
As the Goddess doth indite.
Thus, enraged, my lines are hurled,
Like the sybils through the world;
Look how next the holy fire
Either slakes or doth retire:
So the fancy cools—till when
That brave spirit comes again."

Felly hefyd y cana y bardd mwy godidog, George Herbert. 'Roedd ei iechyd wedi tori i lawr, ac yr oedd wedi colli pob gallu i ganu. Ond

> "Now in age I bud again,
> After so many deaths I live and write ;
> I once more smell the dew and rain,
> And relish versing : O my only light,
> It cannot be
> That I am he
> On whom thy tempests fell all night."

Dyma ynte yw nod gyntaf enaid ysprydoledig—naturioldeb. Gweithreda a siarada fel pe bae o dan ddylanwad cynhyrfiad nad yw bob amser gydag ef, cynhyrfiad na chreodd ei hun, ond sydd yn hytrach o'r uchelder.

II. Pan y dywedwn am unrhyw ddyn iddo siarad neu weithredu fel un ysprydoledig awgrymwn, fel rheol, y nodweddid ei ymadrodd neu ei weithredoedd gan dôn foesol aruchel. Mae'n wir y siaradwn am ysprydoliaeth y bardd ; ond nid yw yn dygymod a chydwybod dyn i briodoli *hono* i unrhyw waith barddonol sydd yn foesol ddrwg. Mae barddoniaeth yn foesol—y goreu bo'r farddoniaeth uchelaf i gyd fydd y dôn foesol ; mae'r goethaf a thlysaf fel prydyddiaeth Saadi, yr hon, yn ol tystiolaeth yr angelion, "*a enillodd gymeradwyaeth Allah yn y nefoedd.*" "Mewn barddoniaeth," meddai Goethe, "dim ond y gwir fawr a'r gwir bur a'n dyrchafa ni." Mae dynion o athrylith ar adegau wedi difrio eu hathrylith ac wedi ysgrifenu pethau llawn o ddrygioni a gorflys. Ond nid trwy eu hymadroddion yn y cywair yma y maent yn byw yn nghalonau diolchgar dynion, eithr yn hytrach trwy ymadroddion hollol wahanol, pan godant uwchlaw y fath dueddiadau i awyr lem a phur gwirionedd a chyfiawnder moesol. Mae "Don Juan" Byron, yn waith o athrylith, ond o athrylith oedd yn ddyledus am lawer i lymeitan mynych o boeth wirod. Byddai yn hollol anghyfaddas i siarad am "Don Juan" fel gwaith ysprydoledig ; ond pan y darllenwn "Hamlet" neu "Macbeth" teimlwn fod y chwareuaethau hyny yn llawn o gynhyrfiad o'r uchelder, canys tra na ysgrifenwyd hwy i ddysgu'r foeswers hon neu arall, gwnant yr hyn sydd yn llawer gwell—purant ffynonellau meddwl a theimlad o ba rai y rhed moesoldeb. Yn mhob cerdd wir fawr, fel yn mhob ymadrodd prophwydol mawr ac yn mhob darlun mawr, ceir y dyrchafiad moesol hwn a phurir a dyrchefir delfrydau yr enaid. Codir pob bywyd i fyny a gwneir ef yn fwy teilwng gan "Messiah," Handel ; gan "Madonnas," Raphael ; gan chwareuaethau Shakespeare, fel hefyd ag y gwneir gan Efengyl Ioan.

III. Ysprydoliaeth sydd briodoledd o gymhwysiad cyffredinol. Os yw unrhyw ymadrodd am un oes yn unig ac yn lleol yn ei gyfaddasiad, ni chyfrifwn ef yn ysprydoledig. Awgrymwyd y Salmau, fel engraifft, gan mwyaf gan ystyriaethau lleol, gan dreialon, llawenydd a phrofiadau Dafydd ac eraill o dan amgylchiadau neillduol. Eto,

er hyny i gyd, teimlwn fel y darllenwn hwy yr ânt tuhwnt i derfynau y lleol a'r unigol—perthynant i'r ddynoliaeth—maent yn wir am y natur ddynol ac am fywyd yn mhob man; neu cymerwch brophwydoliaeth Crist am ddinystr Jerusalem. Siaradwyd hi yn Jerusalem am Jerusalem, ac mewn modd ymddangosai yn gyfyngedig i Jerusalem. Ond pe bae'r brophwydoliaeth yn wir am y ddinas ofidus hono yn unig, ni fyddai erioed wedi ei chyfrif yn ysprydoledig. Pan mewn gwirionedd egwyddor Crist oedd hon—fod y golledigaeth gyhoeddid ar Jerusalem yn gymhwysiadol i bob oes a gwlad, ac nad oedd ond dull ac engraifft o farn Duw yn mhob man. Daw'r ddedfryd pa le bynag y mae drygioni wedi tyfu yn addfed iddi, pa le bynag y mae llygredigaeth yn gyflawn. Ac nid yw cynulliad yr eryrod Rhufeinig at y gelain ond engraifft o'r modd y goddiwedda barnedigaeth yn y diwedd unrhyw ddinas, unrhyw wlad ac unrhyw ddyn yn yr hwn y mae drygioni wedi cyrhaedd pwynt nas gellir ei wella. Yr ydym ni sydd wedi byw trwy y deugain mlynedd diweddaf wedi gwel'd yr eryrod yn casglu at eu gilydd i Naples, i'r Amerig, i Ffrainc ac i Bulgaria. Mae dedfryd yr Arglwydd ar Jerusalem wedi ei chyflawni lawer gwaith—nid o gymhwysiad lleol yn unig oedd, eithr yn hytrach o gymhwysiad cyffredinol. Edrychwch ar y Gwynfydau, edrychwch ar Ddamegion y Samaritan Trugarog a'r Mab Afradlon, edrychwch ar emyn ardderchog Paul ar Gariad, edrychwch ar ymadroddion Esaiah; mae'r oll o'r rhai hyn yn wir yn mhob man, ac apeliant at ddynion o bob oes a phob cyflwr a sefyllfa mewn cymdeithas. Cyffyrddant a'r galon ddynol gydag angerddoldeb pa le bynag y mae yna galon i deimlo; dywedant wrth ddynion beth sydd dlysaf, ardderchocaf a dwyfolaf mewn bywyd, pa beth bynag eu credo a'u heglwys. Maent yn gyffredin i bawb. Dywedwn ynte, am unrhyw un sydd yn ysprydoledig, y siarada ac y gweithreda gyda naturioldeb; fod yn ei eiriau a'i weithredoedd ryw ddyrchafiad moesol nas gellir ei gamsynied; ac yn olaf, fod ei ymadroddion o arwyddocâd a chymhwysiad cyffredinol.

GWEISION JOB.

Ei holl weis oeddynt mewn lle a swyddau,
Rhai yn aredig, rhai yn rhoi hadau;
Acw, rhai lynent tua'r corlanau,
I ddiwyd ollwng ei ddiadellau;
Torf y camelod, tirf eu cymalau,
A'u gyriedyddion drwy'r gordueddau.
A'u harferion fel rhyw forau—arall,
Oll wrthi'n ddiwall ar waith yn ddeau.

EBEN FARDD.

Y DDIRPRWYAETH EGLWYSIG.*

Y mae adroddiad y Ddirprwyaeth uchod newydd ei gyhoeddi, a minau wedi cael cipolwg ar un gyfrol. Costiodd i mi 4s. 9c. fodd bynag i'w sicrhau, a meddyliais y gallai fod o ddyddordeb i rai o ddarllenwyr YR YMOFYNYDD i wybod rhywbeth am dani. Y mae'n llyfr mawr *folio* gyda 530 o dudalenau. Rhif y tystion geir ynddi yw 50, y rhai a wneir i fyny fel hyn : Eglwyswyr 23, Annibynwyr 9, Methodistiaid 6, Bedyddwyr 4, Wesleyaid 3, Undodiaid 3, Primitive Methodists 2. Cymer rhai o'r tystion lawer mwy o le yn yr adroddiad na'u gilydd. Yr helaethaf yw eiddo Mr. C. W. Slater dros y Wesleyaid—35 tudalen. Ar ei ol ef y Parch. W. Morris (B.), Treorci 24, M. Griffiths (M.C.), Llanelli 15, Thomas John (A.), Llanelli 14, J. Morgan Jones (M.), a R. E. Peregrine (A.), pob o 12 ; y tri Undodwr rhyngddynt tua 15. Ni rydd y gyfrol hon neb tystion ereill, er y darllenwn ar tudalen 3, fod dymuniad am wybodaeth yn nghylch "Bible Christians, Baptists Bach (?) Quakers, Salvation Army, and Roman Catholic." Darllenwn fod y Pabyddion a rhai ereill wedi gwrthod danfon cynrychiolwyr.

Y dyb gyffredin yn nghylch y Ddirprwyaeth oedd ei bod wedi ei bwriadu i gasglu mor bell ag oedd yn bosibl fanylion pob gwybodaeth angenrheidiol tuag at ddwyn ger bron y mesur hir ddisgwyliedig i Ddadgysylltu a Dadwaddoli Eglwys Loegr yn Nghymru. Rhywbeth tebyg i hyn yw'r cyfarwyddiadau roddwyd i'r Ddirprwyaeth : "I wneuthur ymchwiliad i ddechreuad, natur, swm a chymwysiad tymorolion, gwaddoliadau, a meddianau ereill Eglwys Loegr yn Nghymru a Mynwy, ac i'r ddarpariaeth wnaed a'r gwaith wneir gan eglwysi'r holl enwadau yn Nghymru a Mynwy, ar gyfer hawddfyd y bobl, a pha mor bell y manteisia'r bobl ar y cyfryw ddarpariaeth, ac i roddi adroddiad ar hyn."

Mae'n aros yn ddirgelwch hyd heddyw yn mha le y tarddodd y syniad o angen am y fath Ddirprwyaeth ag oedd hon. Nid oes amheuaeth yn nghylch

BARN CYMRU

am bwnc Dadgysylltiad ; y mae hono'n hyspys ddigon er ys blynyddau. Ni wnaeth y Ddirprwyaeth ddim amgen na dangos fel y gellir treulio amser yn ofer i fflangellu ceffyl marw.

Fel yr oedd yn naturiol y peth cyntaf i gael sylw ysgrifenydd y llinellau hyn oedd tystiolaeth y

TRI UNDODWR

—Jones a James a Thomas. Jones yn ddiameu gafodd y driniaeth arwaf o neb, a thebyg i'w driniaeth ef greu gwrthdystiad fu'n effeithiol i dangnofi peth ar yspryd sarhaus y Cadeirydd. Gellir casglu rhywbeth oddiwrth lythyr gohebydd un o'r papyrau dyddiol oedd yn bresenol at Mr. Jones. —"*I think the Chairman treated you most d———.*" Llanwed y darllenydd y gair i fyny. Anghofiai'r Cadeirydd mai nid mewn llys barn oedd, mai nid carcharorion ar dreial am ladrad neu lofruddiaeth, &c. oedd ger ei fron. Triniai'r tystion fel rhai yr oedd yn rhaid bod yn amheus o'u tystiolaeth, fel rhai oedd a'u prif amcan ar dwyllo. Gwnaeth ei *apology* lawer gwaith, ond troseddai yr un wedd drachefn a thrachefn. Yr wyf wedi meddwl llawer ar y pwnc, ac wedi ceisio cael o hyd i ryw achos rhesymol i gyfrif am ddull sarhaus y Cadeirydd o gario pethau yn mlaen,

* Am fanylion blaenorol gweler YR YMOFYNYDD 1907, tdd. 50, 51, 52, 64, 71, 79.

a'r cyfrif mwyaf caredig fedraf fi ddyfod o hyd iddo yw ei fod yn methu ymddihatru oddiwrth ei alwedigaeth o Farnwr. Bu anghydwelediad rhyngddo a'i gyd-ddirprwywyr amryw droion, nes gorfod clirio'r ystafell er mwyn gostegu'r ystorm, ac yn hir cyn y diwedd cawn i amryw roddi eu seddau i fyny ar y Ddirprwyaeth. Fe ddichon y gwyr y darllenydd beth yw'r caritor a briodolir i'r *Jack-in-office.*

Ond dyna ddigon ar hynyna. Ni ddylid anghofio fodd bynag y posibilrwydd fod agwedd ac osgo y Barnwr yn effeithio yn anffafriol ar y tyst. I hyny yn benaf y priodolaf fi'r ffaith fod y tri tyst Undodaidd wedi llithro i rai camsyniadau. Yr oedd yn dda genyf dan yr amgylchiadau i Mr. James fyned trwy ei brawf mor ardderchog dda, fel y cydnabyddwyd gwerth ei dystiolaeth hyd y nod gan y Cadeirydd ei hunan. Galwyd ar Mr. Thomas yn ddiarwybod iddo a gwnaeth ei waith yn llawn cystal ag y gellid dysgwyl iddo.

Cynil a gwyliadwrus oedd y gwahanol dystion yn eu cyfeiriadau at yr Undodiaid. Fel rhai yn perthyn i dŷ ac i deulu y Rabbi Ben Pharas ni ellid dysgwyl i'w cyfrinach a hwynt fod ond yn brin—a phell. Ni allai fod yn ddim arall, gan nad ystyrid hwy "hyd y nod yn efengylaidd—*not even evangelical* (t. 60)—feallai, yn ol mesur y Drefn wnawd yn y Cyngor Bore gynt gan y Tri-yn-Un. Synai'r Cadeirydd glywed y gallai pregethwr uniongred wasanaethu mewn

PWLPUD UNDODAIDD;

ond paham lai, byddai yn gyfleusdra ardderchog iddo draddodi ei genadwri. Anghofiai fod un tyst eisoes wedi cyffesu yn ei bresenoldeb iddo wneuthur hyny;* ac ychydig yn ddiweddarach cafodd glywed Undodwr yn dywedyd i bregethwr uniongred wasanaethu yn ei *ordination* ef. Ond sylwer, nid yw'r offeiriad at ei ryddid i wneuthur cymaint a hyny; oherwydd deddf y wlad nid oes cenad iddo ef bregethu mewn pwlpud Undodaidd nac un pwlpud Anghydffurfiol arall. Cafwyd digon o brofion hapus fod llawer o gariad brawdol yn ffynu rhwng y pedwar prif enwad, ac yn ol un tyst "yn ystyr helaethaf y gair yr oedd yr Evangelical Churches yn cynwys Eglwys Loegr"—heb lawer o arwyddion y cariad brawdol.

Rhoddodd yr enw "Presbyteraidd" gryn drafferth i rai, am ei fod yn cael ei ddefnyddio am yr

HEN UNDODIAID

er ys 200 o flynyddau, ac mewn amser diweddarach am y Methodistiaid Calfinaidd—dau enwad nad oes ond ychydig yn gyffredin rhyngddynt; a dyna'r gair ordeinio; yr oedd yn amlwg ryw deimlad gan y Parch. J. R. Parry (A.) yn ei erbyn. "You were ordained," ebe'r Parch. Mr. Gibbon. "I was inducted," ebe yntau. "Would you say you were ordained to the ministry?" ebe Lord Hugh Cecil, ac ebe Mr. Parry drachefn, "As I said, personally, I object to the word 'ordained.'" Feallai fod y pwnc yn werth sylw.

Ond i ddychwelyd at y pedwar enwad. Mae'n debyg nad oes un gwahaniaeth ymarferol cydrhyngddynt. Y gwahaniaethau fydd, fe'u cedwir at wasanaeth cartref. Anwybyddir Bedydd, ac yn ymarferol anwybyddir y Pum Pwnc, fel nad oes un rhwystr i'r bobl dda gyfnewid pwlpudau yn achlysurol. Maent yn amlwg yn agosach at eu gilydd nag yw'r Uchel- a'r Isel-Eglwyswyr. Dirgel ddywedwn ein bod yn gweled

* Cofiwn y diweddar Barch. John Evans, Gellionen, yn dywedyd iddo ef un tro pan yn fyfyriwr yn Ngholeg Caerfyrddin, ar gais cyfaill offeiriadol gymeryd rhan yn y gwasanaeth mewn eglwys wledig yn nghymydogaeth Caerfyrddin, drwy ddarllen un o bregethau Dr. Martineau. Yr oedd hyny feallai tua 1861 neu 1862.

arwyddion y daw'r amser cyn hir pan y meddienir o leiaf un neu ddau o'r pedwar enwad gan deimladau mwy rhyddfrydig ac y caniatant hyd yn oed i'r Undodiaid yr anrhydedd o gydweithio â hwynt ar delerau cyffelyb i geisio gwella a dyrchafu cymdeithas.

ADDOLANT YR UN DUW,

gwasanaethant yr un athraw, ac amcanant am yr un nefoedd. Mae'r elfenau angenrheidiol eisoes yn bresenol. Ebe un tyst, "Wrth ddyfod yn aelod rhaid iddo roi datganiad o'i edifeirwch am bechod, ei ffydd yn yr Arglwydd Iesu Grist, a'i ymgysegriad i wasanaethu Duw."

Pwnc y teimlai rhai o'r dirprwywyr ddyddordeb mawr ynddo, a'r cadeirydd yn eu plith, oedd pwnc

CALFINIAETH AC ARMINIAETH.

Troai i fyny yn rhyw gysylltiad neu gilydd yn barhaus, a chafwyd rhai sylwadau tarawiadol. Rhywbeth rhyfedd yw'r meddwl dynol, onide? rhyfedd yn ei weithrediadau ac yn ei gasgliadau gwahanol ac amrywiaethol yn mherthynas i'r hyn a ymddengys megys yn un peth yn unig. Er engbraifft, dyna holl enwadau ein gwlad, er mor wahanol a gwrthwynebol i'w gilydd, yn seilio eu cred ar un llyfr—y Beibl; eto, Calfin oedd Whitfield, ac Armin oedd Wesley, ac mae'r ddwy *system* mor wahanol i'w gilydd ag sy'n bosibl; ond tynent eu hathrawiaeth ill dau o'r un Llyfr Gweddi Gyffredin, yr hyn sy'n peri ini gofio am ddywediad o eiddo Iarll Chatham: "Y mae genym gredo Galfinaidd, ffurfwasanaeth Babaidd, ac offeiriadaeth Arminaidd." Nid am Galfiniaeth y dydd presenol y llefarai John Wesley pan y dywedodd — "Duw John Calfin yw fy Niafol i"; ac nid gwir heddyw yw'r geiriau eraill a briodolir iddo—Lord Hugh Cecil sy'n eu cwoto: "*One man in twenty is saved, do what he may; 19 in 20 are lost, do what they can. Believe or be damned. Witness my hand. Augustus Toplady.*" Fel y gŵyr y darllenydd, Toplady yw awdwr yr emyn poblogaidd, gyfieithwyd i'r Gymraeg gan Mr. M. Davies, Bangor,

"Graig yr Oesoedd! ynot Ti,
Holltwyd erof, cuddier fi," &c.

Credwn fod y crynodeb yn debyg iawn i'r *article* gwreiddiol, fel y cafwyd ef o law John Calfin ei hunan, a dylai John fod yn awdurdod ar ei athrawiaeth ei hun; a thebyg iawn hefyd yw i swm a sylwedd yr hyn a geir yn y Pum' Pwnc, a wrthwynebid mor gyndyn gan James Arminius, ac yn ddiweddarach gan John Wesley. Cyffesa John Calfin mai arfaeth ofnadwy oedd--*Decretum quidem horribile, fateor!!* Ar ol gosod ei gynseiliau i lawr, yr oedd Calfin yn ddigon dewr i adeiladu ei *system* arnynt. Tynai linell union o'r cychwyn i'r terfyn, tra mae Calfiniaeth ddiweddar, er cydnabod y cynseiliau yn ymwrthod a'r casgliad naturiol. Nid yw yn tynu llinell union ond llinell grwca. Y mae rhai dynion yn well na'u credo. Dr. Channing ddywed, "Y mae gan Galfiniaeth i frwydro heddyw yn erbyn gelyn mwy nerthol na'r duwinyddion, sef cynydd y meddwl dynol, cynydd ysbryd Iesu Grist.

Ceisiwn eglurebu: Yn mhrydles capel Ebenezer, Abertawe, ceir

CALFINIAETH Y PUM' PWNC;

ond megys yn y City Temple, anwybyddir y brydles. Peth cyffredin ddigon heddyw, ac nid wyf am feio. Os oes bai, bai y "llaw farw" yw Credaf fod gormod o barch yn cael ei roddi yn fynych i'r "llaw farw." Ceir yn y brydles eiriau fel hyn: "*God hath predestined some to life, and some he hath reprobated to death*"; ond ni chlywir son am y fath beth o'r pwlpud heddyw yn un man. Yn ol y Parch. Maurice Griffith, nid yw Calfiniaeth yn nodwedd ddesgrifiadol o athrawiaeth y Methodistiaid Calfinaidd heddyw, ond yn hytrach *term* yw i'w gwa-

haniaethu oddiwrth y Wesleyaid. Nid yw'r Parch. John Morgan Jones, fodd bynag yn cytuno. Cred Mr. Jones yn yr arfaethau ; ond dywed fod iachawdwriaeth yn cael ei chynyg i bob dyn, ac na fydd i arfaethau Duw gau neb allan os derbynia hi. Y mae Duw wedi arfaethu pob peth, ac mae ewyllys dyn yn rhydd ; a dyna, eb efe, oedd swm a sylwedd pregethu'r enwad erioed, o amser Daniel Rowland a Howell Harris—iachawdwriaeth i bawb, a gallu gan bawb i'w derbyn. I'r cadeirydd, ymddangosai'r fath Galfiniaeth yn Galfiniaeth gyda "*not*" o'i blaen. Nid hawdd, yn sicr, ei gwahaniaethu oddiwrth yr hyn a ddywed y Parch. R. J. Campbell. Cred Mr. Campbell yn rhyddid yr ewyllys, er ei fod yn methu cael lle iddo yn ei athroniaeth. Daw Mr. Jones allan o'r dyryswch drwy ddywedyd mai dirgelwch yw.

Melus meddwl am y ddau enwad ar ol helynt chwerw cynifer o flynyddoedd yn dyfod yn nes at eu gilydd, yn nes o ran yspryd, yn nes o ran amcan. Hen ddiareb y canrifoedd bore oedd :—Gwelwch fel y mae'r Cristionogion hyn yn caru eu gilydd ! Garw na fuasent wedi cadw yn deilwng o'r ganmoliaeth drwy'r canrifoedd dilynol. Awyddai Wesley am heddwch. Eb efe, "Gadewch ini beidio siarad am y pethau yr anghytunwn yn eu cylch ; gadewch i ni siarad am y pethau y cytunwn arnynt" ; a diolch bellach fod yr arwyddion am heddwch yn dyfod yn fwy amlwg bob dydd.

Mae ein gofod yn cyfyngu arnom, ac ofnwn nad yw ein sylwadau y peth y dysgwyliai'r darllenydd. Ni wn i ddim paham, ond y mae tystiolaethau'r Anghydffurfwyr wedi bod imi yn fwy dyddorol nag eiddo'r Eglwyswyr. Maent wedi bod yn fwy byw yn eu gwaith, ac fel canlyniad y maent yn fwy byw yn eu hadroddiad.

Wrth fwrw golwg dros gynwys llyfrgelloedd y capelau--ac y maent yn lluosog os nad yn gyfoethog—y peth sy'n dal ein sylw'n benaf yw, ein bod yn darllen yr un peth drosodd a throsodd yn ddiangen ; ac wrth gyferbynu'r llenyddiaeth mae'r Cymro wedi ei derbyn o law'r Eglwyswr a'r hyn a gadd oddi ar law'r Anghydffurfiwr, un gair yn unig sy'n ymgynyg i'n meddwl—TRUENUS.

Un sylw arall a dyma fi yn dibenu. Yr wyf yn caru'r geiriau hyn o eiddo'r Parch. H. T. Jacob gymaint a dim yn y llyfr : gosodant allan y rheol ddilynais inau drwy'r blynyddoedd — "Nid wyf fi byth yn gwybod pwy sydd yn cyfranu at fy nghynaliaeth, na phwy sy'n peidio."

R. J. J.

YMSON Y MYFYRIWR.

O bob darganfyddiad, y mwyaf gwerthfawr yw'r darganfyddiad o ddyn mawr. Meddai Syr Humphrey Davy, un o fferyllwyr mwyaf unrhyw oes, pan yn cael ei ganmol un tro am ei ddarganfyddiadau rhyfeddol a bendithiol, "Fy narganfyddiad goreu oedd

MICHAEL FARADAY."

Trwy iddo gael allan y galluoedd oeddent blygedig yn natur Faraday, gwnaeth yn bosibl y darganfyddiadau a gysylltir ag enw'r gwr enwog hwnw, a'r gwaith gwyddonol gwerthfawr a wnawd ganddo yn ystod ei oes.

Yn fynych iawn "y mae'r gemau a'r perlau puraf" yn guddiedig yn "nyfnderoedd maith y môr," o ddiffyg rhywun i fyned i'r drafferth o ymsuddo i'r dyfnderoedd i chwilio am danynt, a'u dwyn i oleu dydd. Mewn amgylchoedd di-nod, y mae llawer "Hampden ddoeth, â chalon ddewr o ddur," neu aml i "Filtwn heb ei fawrglod," yn gorfod treulio eu bywydau; y rhai, pe wedi cael eu gosod mewn amgylchoedd mwy ffafriol, allent fod wedi cyflawnu gwrhydrau—gwrhydrau a enillent iddynt le amlwg yn mhlith "ardderchog lu" yr oesau. Y meddwl am

Ddyn ein dydd ni

—ein cydwladwr, yr Anrhydeddus D. Lloyd George—berodd i ni ddechreu'r llith hon y fel hyn. Nid oes aelwyd (mi gredaf), tu fewn i gyffiniau Prydain Fawr nad yw'r enw uchod yn enw teuluaidd arni. Yn wir, nid yw ei boblogrwydd yn gyfyngedig i'n gwlad fechan ni—i'r ynysoedd Prydeinig; y mae yn adnabyddus trwy'r holl fyd gwareiddiedig. Nid oes gormodiaeth yn y gosodiad hwn. I lu mawr y mae ei enw yn un i'w felldithio. Ar y tu arall y mae ei enw yn un a fendithir gan nifer mwy lluosog fyth. Dyna dynged anocheladwy dynion a esgynant i safleoedd uchel a phwysig yn unrhyw gylch o fywyd, yn enwedig felly yn y cylch gwleidyddol, sef, bod yn wrthddrychau casineb ar un llaw, yn wrthddrychau parch a gwarogaeth ar y llaw arall. Y mae pob dyn, bron yn ddieithriad, unwaith y croesa'r llinell rhwng

Bywyd Anghyhoedd a Bywyd Cyhoeddus

yn agored naill ai i driniaeth arw, neu i barch a ymyla mewn rhai achosion arwr-addoliaeth. I'r rheol hon nid yw ein cydwladwr yn eithriad. Y mae, heddyw, mewn rhai cylchoedd o gymdeithas, y dyn a gasheir fwyaf; a phe y symudid ef, trwy ryw ddamwain, o fywyd cyhoeddus, dygai hyny lawenydd a theimlad o esmwythyd i lu o galonau. Nid yw'r achos o hyn yn anhawdd i'w gael allan: tardd o'i ymosodiadau ar sefydliadau a'i ddinoethiad o feddylddrychau ac arferion a ystyrir gan y dosbarth hyn fel yn ymylu ar fod, os nad yn gysegredig. Ar y tu arall, i'r mwyafrif mawr o'i gydwladwyr, trwy'r oll o Brydain, y mae yn ei enw—yn hytrach, yn ei bersonoliaeth—swyn a bair i'w calonau guro yn gyflymach wrth feddwl neu son am dano. Nid yw y rheswm am hyn, ychwaith, yn anhawdd i'w gael allan. Y mae'r modd trwyadl y mae wedi ymdaflu i'r ymdrech i wneud bywyd dipyn yn fwy dymunol—yn fwy gwerth ei fyw—i'r miliynau a gânt y frwydr i gael dau pen y llinyn yn nghyd yn un galed, yn ogystal a'r ddelfryd uchel y y mae wedi osod o'i flaen fel gwleidyddwr, yn ddigon i gyfrif am hyn. Ond yn achos y Cymro, y mae

Elfen arall

yn dod i fewn. Yn mynwes y Cymro, y mae teimlad o falchder fod un o'i gydwladwyr, a fagwyd mewn amgylchiadau cymharol dlawd, dan anfanteision na ddeuant i ran ond ychydig hyd yn oed o blant tlawd, wedi ymgodi i un o'r safleoedd uchelaf yn mhrif Gyngor Llywodraeth ei wlad. Dichon na ddwg y ffaith hon deimlad o falchder i fynwes pob Cymro. Dywedir mai un o ddiffygion y Cymro yw ei eiddigedd at gyd-Gymru a ymgodant i safleoedd o fri. Eithriadau yw y rhai hyn mewn perthynas i Mr. Lloyd George. Y mae ei ddyrchafiad wedi bod yn un mor rhamantus, fel nas gall lai nad balchder achosir ganddo yn mynwes pob Cymro twymgalon. Y mae ei fywyd wedi gwneud yn amlwg un ffaith werthfawr iawn—fod y llwybr yn agored o'r

Bwthyn Dinod

i'r safleoedd uchelaf yn llywodraeth ei wlad. Dywedir fod pob American-wr yn gosod cadair arlywyddol ei

wlad o'i flaen fel nod i gyrchu ato; neu, fod pob Americanwr yn mynwesu'r gobaith o fod yn Arlywydd ei wlad cyn ei farw. Dim ond i ran un Americanwr bob pedair blynedd y syrth y gamp uchel hon. Ond y mae gosod nod mor uchel a hyn o'u blaen i gyrchu ato yn werthfawr, er mai hollol anobeithiol i'r mwyafrif o honynt yw ei enill. Y mae yn

SYMBYLIAD I YMDRECH;

ac y mae'r ymdrech yn addasu pob un a'i gwna i lanw yn effeithiol rhyw gylch arall, nid llai defnyddiol, efallai, na'r gadair Arlywyddol, er nad mor amlwg i'r cyhoedd. Y mae'r ffaith fod Mr. Lloyd George wedi esgyn i'w safle uchel bresenol trwy ei egni a'i ymdrech a'i alluoedd yn symbyliad i bob Cymro—yn wir, i bob Prydeiniwr—i osod ei nod yn uchel—i gylymu ei gerbyd wrth y ser (fel y dywed Emerson). Wrth ddiweddu'r llith hon, ad-draethaf y meddwl gyda'r hwn y dechreuais hi—o bob darganfyddiad, y mwyaf gwerthfawr yw'r

DARGANFYDDIAD O DDYN MAWR.

Y fath deimlad o falchder raid fod yn mynwes y rhai a ddarganfyddasant gymhwysderau a galluoedd ein cydwladwr gyntaf. Dygasant i faes cynhyrfus gwleidyddiaeth un a ysprydolir gan ddelfryd uchel, yr hwn, os y bendithir ef a digon o flynyddau, ac â iechyd a nerth, nas gall lai na gadael ei ol yn anileadwy ar fywyd cymdeithasol ei wlad, a'i gwneud yn fwy o baradwys nag ydoedd pan y gwelodd efe oleu dydd gyntaf.

MYFYRIWR.

"BYWYD IESU" GAN RENAN.

PENNOD XII.—TEYRNAS DDUW FEL DYFODIAD GALLU Y TLODION.

Yr oedd y syniadau hyn yn dda ddigon mewn gwlad o awyr agored a hirddydd hyfryd. Yr oedd y cymundeb tyner hwn o gylch bychan o blant Duw, yn byw yn ffyddlon ar fynwes eu Tad, yn beth hollol addas efallai i'r sect syml hon, a gredai fod ei bodolaeth ddelfrydol, ei Utopia fendigaid, ar gael ei sylweddoli. Ond mae'n eglur nas gallent apelio at gymdeithas yn gyffredinol. Yn wir, deallodd Iesu yn dra buan nad oedd y byd swyddogol o'i gylch i'w enill i mewn i gylch ei deyrnas o gwbl. A gwnaeth ei feddwl i fyny ar y pen hyn gyda mawr hyder. Gan adael o'r neilldu y byd, a'i galon sych a'i ragfarnau culion, trodd at y rhai hyny oe'nt yn arwain bywyd syml. Yr oedd cyfnewidiad mawr i gymeryd lle yn ngwahanol haenau cymdeithas. Gwnaed Teyrnas Dduw: yn gyntaf, i blant a rhai a ymdebygent iddynt: yn ail, i wehilion y byd, ysglyfaeth balchder cymdeithas, a dry ymaith y dyn da ond addfwyn: yn drydydd i'r hereticaid ac ymranwyr, publicanod a Samaritaniaid, a phaganiaid Tyrus a Sidon. Eglurai dameg nerthol yr apêl hon at y bobl, a chyfreithlonai hi. Y mae brenin wedi parotoi gwledd briodas ac yn anfon ei weision i ymofyn am y gwahoddedigion. Y mae pob un yn dymuno cael ei gymeryd yn esgusodol; myn rhai gamdrin y gweision. A'r brenin gan

hyny a wnaeth benderfyniad cryf. Ni fyn y gwyr o radd uchel dderbyn ei wahoddiad ; felly gwahoddir y cyntaf-ddyfodiaid, gwyr y prif ffyrdd a'r caeau, y tlodion, yr anafus, y cloffion a'r deillion ; rhaid llanw yr ystafell, "canys yr wyf yn dywedyd i chwi," medd y brenin, "na chaiff yr un o'r gwyr hyny a wahoddwyd, brofi o'm swper."

Ebioniaeth bur ynte, hyny yw, yr athrawiaeth mai'r tlawd yn unig a achubir, fod Teyrnas y tlodion i ddod, ydoedd athrawiaeth Iesu. "Gwae chwi y cyfoethogion !" medd ef, "canys derbyniasoch eich diddanwch. Gwae chwi y rhai llawn ! canys chwi a ddygwch newyn. Gwae chwi y rhai a chwerddwch yr awrhon ! canys chwi a alerwch ac a wylwch." Eto, dywed wrth y rhai a'i gwahoddasai, "Pan wnelych giniaw neu swper, na alw dy gyfeillion, na'th frodyr, na'th geraint, na'th gymydogion goludog, rhag iddynt hwythau eilchwyl dy wahodd dithau, a gwneuthur taledigaeth i ti. Eithr pan wnelych wledd, galw y tlodion, yr efryddion, y cloffion, y deillion ; a dedwydd fyddi, am nad oes ganddynt ddim i dalu i ti ; canys fe a delir i ti yn adgyfodiad y rhai cyfiawn." Efallai mai mewn ystyr o'r fath yr adroddai yn fynych : "Byddwch logwyr da" : hyny yw, rhoddwch eich arian ar lôg yn Nheyrnas Dduw, drwy gyfranu o'ch eiddo i'r tlodion, yn ol y ddiareb : "Y neb a gymero drugaredd ar y tlawd, sydd yn rhoddi echwyn i'r Arglwydd."

Yn wir, nid oedd yn hyn oll ddim newydd. Yr oedd y symudiad gwerinol mwyaf aruchel yn nghof dynoliaeth (yr unig symudiad o'r fath hefyd a fu'n llwyddianus, am ei fod wedi cadw yn nhiriogaeth delfryd bur) wedi bod yn gweithio drwy'r genedl Iddewig er's amser hir. Hanes Israel yw'r hanes, uwch pob dim, sydd wedi ei lywodraethu yn gyfangwbl gan ysbryd gwerinol.

Yr oedd y proffwydi, y gwir farnwyr, ac ar ryw ystyriaeth y barnwyr mwyaf beiddgar, wedi taranu yn ddi-dor yn erbyn y mawrion, ac wedi sefydlu perthynas agos ar un llaw rhwng y geiriau "goludog, annuwiol, terfysglyd, drygionus," ac ar y llaw arall rhwng y geiriau "tlawd, addfwyn, gostyngedig, duwiol." Yn mysg y Seleucidiaid, yr oedd bonedd y wlad wedi troi bron i gyd at Heleniaeth, ac wedi cofleidio cred y Groegwyr ; felly cafodd y syniadau hyn dderbyniad parod ganddynt. Y mae llyfr Enoch yn cynwys melldithion mwy enbyd nag eiddo'r Efengyl yn erbyn y byd, y cyfoethogion, a'r uchelwyr. Y mae'r bywyd moethus yn cael ei ystyried ganddo fel trosedd. Y mae "Mab y Dyn" yn y Datguddiad rhyfedd hwn, yn dadorseddu'r brenhinoedd, yn eu tori ymaith oddiwrth eu bywyd glwth, ac yn eu taflu i uffern. Yr oedd dyfodiad diweddar y bywyd paganaidd i Judea, a dygiad i mewn elfen fydol o fywyd rhwydd a danteithus, wedi cynyrchu gwrthwynebiad cryf yn ffafr symledd y bywyd patriarchaidd.

"Gwae chwi y rhai sydd yn dirmygu bythynod ac etifeddiaeth eich tadau ! Gwae chwi y rhai sydd yn adeiladu palasau ar chwys ereill ! Pob maen, pob priddfaen, o honynt sydd bechod !" *

Yr oedd yr enw "tlawd" (ebion) wedi dyfod yn gyfystyr a "saint," ac a "chyfaill Duw." Dyma'r enw yr hoffai disgyblion Galileaidd Iesu roddi iddynt eu hunain ; am hir amser hwn oedd enw Cristionogion Batanea a Hauran (Nazareaid—Hebreaid) oeddynt wedi aros yn ffyddlon i iaith ac i addysgiadau cyntefig Iesu, ac a ymfalchient mewn meddu yn eu mysg ddisgynyddion ei deulu. Ar ddiwedd yr ail ganrif, trinid y sect syml hon, oedd wedi aros y tu faes i'r dylif oedd wedi gyru yr Eglwysi ereill yn eu blaen,

* Llyfr Enoch xcix. 13, 14.

fel hereticiad ; ac er mwyn egluro eu henw dyfeisiasant iddynt eu hunain ffug-sylfaenydd Ebion. Lled-welwn yn wir, heb lawer o ymdrech nad oedd oes hir i'r duedd hon at dylodi. Elfen ddelfrydol ydoedd fel sydd bob amser yn nodweddu mudiadau mawrion ; elfen a unionir gan rediad cwrs y blynyddau. Wedi ei throsglwyddo i ganol cymdeithas ddynol, daeth Cristionogaeth yn ddigon parod i dderbyn y cyfoethogion i'w mynwes ; fel y darfu i grefydd Buddha, oedd fynachol yn eu dechreuad, ond a ddaeth yn dra buan, yn foddlon i dderbyn i'w chysegr wyr o'r byd. Ond ceidw pob crefydd nôd ei dechreuad. Er iddi yn fuan gael ei cholli a'i anghofio, gadawodd Ebioniaeth yn hanes sefydliadau Cristionogol lefain nas collwyd mohono byth. Ymffurfiodd y casgliad o ddywediadau Iesu yn nghanol Ebioniaid Batania. Arosodd "tlodi" yn ddelfryd nas ymadawodd llinach Iesu a hi mwy. Bod heb feddu dim oedd yr ystad wir Efengylaidd ; daeth cardotaeth yn rhinwedd, yn gyflwr cysegredig. Sylfaenwyd y mudiad mawr yn Umbria (yr Eidal) yn y drydedd ganrif ar ddeg yn hollol ar dlodi ; a'r mudiad hwn, o bob ymdrech grefyddol, fu debycaf yn ei natur i'r mudiad yn Galilea. Tlawd oedd Francis o Assisi, y dyn o bawb, yn rhinwedd ei ddaioni rhyfedd, ei gymundeb llednais, pur, a thyner â bywyd cyffredinol natur, fu debycaf i Iesu ei hun. Yr oedd "brodyr crefyddol" y canloesoedd, a gardotent o ddrws i ddrws, a'r sectau cyd-feddianol afrifed a ffynent yr un amser yn teitlo eu hunain yn ddilynwyr yr "Efengyl Dragwyddol" ; ac yn wir yr oeddent, fel y mynent eu bod, yn wir ddisgyblion Iesu. Ond, gyda'r rhain eto, bu y breuddwydion mwyaf anymarferol yn ffrwythlon mewn canlyniadau. Yr oedd cardotaeth dduwiol, peth nas medr cymdeithas ddiwydianol, wedi llwyr golli yr hen symlder, ei oddef, yn drefn llawn o swyn yn ei dydd ac mewn ansawdd addas. I lu o eneidiau myfyrgar a thyner hon oedd yr unig ystad foddhaol. Gwneud tlodi yn wrthddrych serch a dymuniad, codi'r cardotyn ar allor, cysegru gwisg y dyn tylawd, ydoedd "gyffyrddiad beiddgar" nas medr darbodaeth wladol efallai ddeall ; ond nis gall un myfyriwr moes a rhinwedd fforddio cau llygad arno. Rhaid i ddynoliaeth, er mwyn cario ei baich, gredu nad yw yn cael ei chyflawn dalu yn ei chyflog. Y gwasanaeth mwyaf eill neb wneud iddi yw adrodd ac ail-adrodd nad ar fara yn unig y bydd byw dyn.

PRIODASAU.

RHAGFYR 10, yn Nghapel-y-groes, gan y Gweinidog, a cher bron Mr. T. Ll. Evans, y Cofrestrydd, unwyd Mr. David Thomas Hughes, 9, Barley Mow, Llanbedr, mewn priodas â Miss Mary Evans, Pwllglas, plwyf Llanbedr. Dymunwn bob llwyddiant a dedwyddwch iddynt.

IONAWR 24, yn Llwynrhydowen, gan y Parch. E. O. Jenkins, Mr. James Evans, Cwmmarch, a Miss Margaret Evans, Brynygroes, y ddau o blwyf Llandyssul. Hapus boed eu gyrfa.

MARWGOFION.

TACHWEDD 19, yn 83 oed, bu farw Anne Davies, Undergrove, ger Llanbedr, ar ol amryw fisoedd o gystudd. Gadawodd mewn galar ar ei hol dri mab, a nifer o berthynasau agos. Gweiniwyd arni yn ei chystudd gan ei mab a'i nith. Dydd Mercher canlynol claddwyd yr hyn oedd farwol o honi yn mynwent Capel-y-groes, y Parch. B. Carolan Davies, Tyngwndwn, yn gwasanaethu.

RHAGFYR 20, yn 33 oed, Elizabeth, gwraig David W. Bowen, Swansea Road, Trebanos. Dim ond am ychydig fisoedd y nychodd ein hanwyl gyd-aelod a'n chwaer dirion, a dioddefodd yr oll fel gwir gristion hyd y diwedd. Y Sadwrn dilynol, hebryngwyd ei phabell o glai i Gellionen, dan weinyddiad tyner y Parch. Simon Jones, B.A., Abertawe. Caffed ei phriod nerth i ddal odditan yr amgylchiad torcalonus. Mae tri o blant bach yma eto wedi eu hamddifadu o fam yn moreu eu mebyd; ond mae lle i ddiolch, er hyny, fod ganddynt dad gofalus, ac sydd yn wastad yn barod i wneud ei ran dros ei deulu, yr hyn yw dyledswydd benaf pob penteulu ystyriol. "Gwyn eu byd y rhai pur o galon, canys hwy a welant Dduw."

IONAWR 3, Hannah Evans, merch fechan John a Margaret Evans, Maesyronen, Cribyn, yn dair oed, ar ol cystudd byr ond caled iawn. Claddwyd ei gweddillion y Sadwrn canlynol yn Nghladdfa Capel Cribyn, y Gweinidog yn gwasanaethu.

IONAWR 4, yn 40 mlwydd oed, Mrs. Esther Jones, Pontycapel Road, Cefncoed. Gadawodd briod a phedwar o blant i alaru ar ei hol. Daeth tyrfa luosog yn nghyd y Llun canlynol i hebrwng yr hyn oedd farwol o honi i fynwent yr Hen-Dy-Cwrdd, a gweinyddwyd gan y Gweinidog.

IONAWR 9, yn 65 oed, Anne Evans, Blaencefel, ger Pantdefaid. Cartrefai yr ymadawedig yn y lle uchod gyda ei mam oedranus a'i chwiorydd, y rhai fu yn dyner a gofalus o honi yn ystod ei llesgedd a'i gwendid. Claddwyd ei rhan farwol yn Mhantydefaid y dydd Iau dilynol, gwasanaethwyd gan y Gweinidog, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. E. O. Jenkins.

IONAWR 11, yn 6 mis oed, John, baban Elizabeth Jones, Rose Hill, ger Pantdefaid. Claddwyd y dydd Gwener canlynol yn mynwent Pantdefaid, y Gweinidog yn gwasanaethu.

IONAWR 27, yn 20 mis oed, Rachel, geneth fechan Rees ac Elizabeth Evans, Blaenyralltddu, Pontshan. Claddwyd y dydd Mawrth dilynol yn Mhantdefaid. Y Parch. E. O. Jenkins yn gwasanaethu, ac yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. Arthur Thomas.

MANION AC HANESION.

Y GRAIG A GELLIONEN. — Yn ystod y gauaf yma, dengys y frawdoliaeth wir ymdrech i godi safon ac anrhydedd llên a chân, trwy gynal yn bythefnosol, yn Ysgoldy Newydd y Graig, a than arweiniad y cewri cedyrn, gyfarfodydd adloniadol llwyddianus.——Mae y Gobeithlu mewn bri mawr yma, ac yn ymroi am fywyd, dan arweiniad parod ein

cyfaill ieuanc, Mr. H. H. Morgan, yn dysgu yr *Operetta* brydferth a elwir "*Marjorie*." Bwriedir perfformio yr uchod gynted y gellir; a disgwyliwn wledd ardderchog.——Prydnawn Sul, Rhagfyr 4, rhanwyd amryw o dystysgrifau destlus i'r plant fuont yn llwyddianus yn yr arholiad diweddaf,—a gobeithio, gan fod yr "Holwyddoreg" yn nwylaw yr athrawon a'r athrawesau, y gwnaiff pawb eu goreu i barotoi y plant eleni eto, fel y byddont yn alluog i ateb heb help llyfr.——Y nos Sul uchod, yn nghyd a nos Sul, Ionawr 15, 1911, yn nghapel y Graig, mwynhawyd dau gwrdd adrodd penigamp. Y cyntaf dan arweiniad Mr. John Hopkin, Brynderw, a'r llall dan arweiniad Mr. William Bowen, Alaska, Trebanos. Gwnaeth y ddau arweinydd eu gwaith yn fforddus iawn; ac aeth pawb o'r adroddwyr, y cantorion, a'r chwareuwyr, trwy eu gwaith yn rhagorol. Diolcha y gynulleidfa i'r cyfeillion hyny ydynt yn llafurio yn ddi-dwrf gyda'r plant, i gael y gwaith wedi ei barotoi yn y modd goreu. Sicr yw, na ddylid anghofio y rhai sydd yn llafurio yn ein plith.——Nos Lun, wedi y Nadolig, yn ysgoldy newydd y Graig, dan lywyddiaeth Mr. W. H. Thomas, Gellinudd, cafwyd cyfarfod adloniadol da dros ben. Yr oedd pawb yn yr hwyliau goreu, a phawb wedi mwynhau eu hunain yn rhagorol iawn.

HEN DY CWRDD, CEFNCOED.—Nos Fawrth, Ionawr 17, cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus mewn cysylltiad a Chymdeithas Ddiwylliadol yr Hen Dy Cwrdd, pryd y traddodwyd darlith gan Mr. J. R. Evans, ar "From Forest to Fireside." Daeth tyrfa luosog yn nghyd yn awyddus i gael gwybod beth olygid wrth y testyn hwn; a mawr oedd rhyfeddod pawb pan y deallont mai desgrifio ydoedd Mr. Evans gwrs y newyddiadur yn ei wneuthuriad. Ychydig wyr dynion am y modd y gwneir papyr y dyddiau hyn, llai byth y gwyddant am y modd rhyfeddol y daw y papyrau dyddiol i'w dwylaw. Effeithiol tu hwnt oedd y ddarlith hon, yn gymaint ag iddi ein gwneud yn fwy diolchgar ac yn barotach i werthfawrogi y newyddiadur sydd heddyw mor bwysig i gymdeithas ond mor rhad i'r llogell. Darluniwyd y ddarlith gan swyn-lusern. Cadeiriwyd gan y gweinidog.

LLOYD, BRYNLLEFRITH.—Ychwanegwyd yn ddiweddar at yr amrywiol geryg coffa, yn mynwent Llanwenog, drwy i'w or-wyres, Mrs. Lucy E. Lloyd-Theakston, osod i fyny Groes Geltaidd, o ithfaen Cernyw, uwch beddau y Parch. David Lloyd a'i weddw Lettice, y ddau o deulu Llwyd Castellhywel a Llanfechan. David Lloyd ydoedd rhagflaenydd David Davis, Castellhywel yn y weinidogaeth yn nghapel Llwynrhydowen, 1742—1779. Yn ychwanegol at ei swyn naturiol yr oedd ganddo hefyd feddwl cwrteithiedig uchel. Ychydig Gymru yn yr oes hono fedrai ragori arno yn eangder ei wybodaeth. Nid oedd hefyd lawer gwell ieithwr. Ei wraig ydoedd Lettice, yr hon o du ei mam, a hanai oddiwrth Lwydiaid Ffosybleiddiaid; ac o du ei thad oddiwrth David Llewelyn Lloyd, Castellhywel, yr hwn ydoedd cynrychiolydd cyntaf Sir Aberteifi yn y Senedd yn nheyrnasiad Henry VII. Eu mab John, yr hwn am lawer o flynyddoedd, fu yn ysgolfeistr yn Llandyssul, ydoedd tad yr adnabyddus Brif-athraw yn Ngholeg Presbyteraidd, Caerfyrddin, y Parch. David Lloyd, M.A., Ll.D., unig blentyn yr hwn osododd i fyny y maen coffadwriaethol hwn. Y mae man ei fedd yn nesaf at eiddo Davis Castellhywel, ar feddfaen yr hwn y cerfiwyd ychydig eiriau coffadwriaethol i David Lloyd. Yr oedd man ei fedd yn adnabyddus i'r Parch. John Davies, Alltyplaca, ac i Miss Mary Thomas, Parcyclochydd, gwybodaeth a help ymarferol yr hon sydd wedi bod o lawer o wasanaeth yn y mater hwn. Y mae'r geiriau ar y Groes fel y canlyn:—"In Memory of the Revd. David Lloyd, of Brynllefrith, son of Richard Lloyd of Coedlanau; born 1724, died 1779;

And of his widow Lettice, daughter of Charles Lloyd, of Llanfechan, born 1738, died 1812. This stone is placed by their great granddaughter, Lucy E. Lloyd Theakston, A.D. 1910." Ymddiriedwyd y gwaith i Mr. E. Jones, Stonecutter, Llanybyther, o dan gyfarwyddyd Mr. George Eyre Evans, Golygydd y *Lloyd Letters*, 1754-1796, a chymeradwyaeth y Parch. J. Morris, M.A., Ficer y Plwyf. Wrth draed y bedd y mae maen coffa i fab-yn-nghyfraith David Lloyd, John Enoch, o Bantystreimon, yr hwn a fu farw yn 1850, yn 90 oed, ac arni englyn gan Iolo Morganwg. Gwraig Enoch ydoedd Peggy, merch David a Lettice Lloyd, a merch i Enoch a Peggy ydoedd Mrs. Gower yr hon fu yn addoli yn rheolaidd am flwyddi hirion yn nghapel Parcyvelvet, Caerfyrddin.

ADOLYGIAD Y WASG.—Da genym weled argraffiad newydd o waith awenyddol y doniol Gwilym Harri (1762—1844), Garw Dyla, Penderyn. Cafodd y ddau lyfr wnant i fyny'r gyfrol hon—sef "Nodd Awen" 1828, a'r "Awen Resymol" (1835)—dderbyniad gwresog ar eu hymddangosiad. Y mae'r ddau *out of print* er ys blynyddau, a gobeithiwn y ca'r wyrion anturiaethus—Mr. Sam Harris, Penderyn, a Mr. William Harris, Cefncoed—werthiad buan ar yr argraffiad newydd a phrydferth hwn, fel ag i'w digolledu. Ceir y ddau lyfr yn un yma. Ei bris 1/. Tdd. 136,—

"Rhoes ar led yn gyffredin
Eiriau a mel ar eu min."

Aberdar : Swyddfa'r Darian, 1910.

PE buasai Keats wedi ysgrifenu dim ond yr un llinell,—"A thing of beauty is a joy for ever" buasai wedi anfarwoli ei hunan ; cana'r Cymro lawer gormod ar wedd dywyll pethau. Gall fod gormod o wir yn llinellau Goronwy Owen :—

Bawaidd fu hyn o'm bywyd
Ond am a ddaw baw i'r byd,
ac yn gyffelyb y bardd hwnw a ganodd mai o'r baw y daeth i'r byd, mae yn y baw bu fyw, ac mae ar hyd y baw yr aeth i dir y bywyd ! Ond gwell edrych i fyny ac nid i'r baw. Ceisiwch weled y prydferth a'r arddunol, y dysglaer a'r dyrchafol, y goreu mewn bywyd a'r goreu yn natur. Yn lle edrych ar y Pharisead a'r rhagrithiwr, y gwaelion a'r gwehilion mewn cymdeithas, edrychwch ar y pur a'r rhinweddol, y gwrol a'r dewr a'r diwyd yn mhlith dynion. Paham y gwel dynion frychau'r haul yn lle gogoniant ei ddysgleirdeb ? Ai bai'r dwfr yw fod y lili yn tynu ei arogl peraidd allan o hono a'r cegid (hemlock) yn tynu gwenwyn.—*Pyrrho.*

Y PARCH. THOMAS MORGAN, BLAENGWRACH.—Yr englynion isod a gyfansoddwyd iddo gan y Parch. Thomas Evans (T. Glyn Cothi) :—

Gwir Feddyg, goreu foddion,—am Morgan
Mae mawrgais gan gleifion,
Mae iddo glod gan dlodion
A chan fonedd llwyswedd llon.

Dwys gadarn mewn dysgeidiaeth—grefyddol,
Gryf addas athrawiaeth,
Derbyn wyneb neb ni wnaeth,
Dyn ydyw a dawn odiaeth.

A noddwr Awenyddiad — Barddoniaeth
Ber ddoniol yn wastad,
Ac am rinwedd mwynwedd mad,
Haedda'r gwr hy, ddewr gariad.

Ar deithiad, wr odiaethol,—mwyn difeth
Mae'n dyfod yn wrol
Ei gymdeithas sydd rasol,
Bur hoff iaith, heb eiriau ffol.

Medi 4, 1797, yn y bore.

Allan o MSS. Cynonwyson.

SALMAU IOLO.—Ofnaf ei bod wedi myned dipyn yn ffasiynol yn ddiweddar i ddibrisio Salmau Iolo. Nid wyf erioed wedi deall i ba bwrpas. Gwn y byddai yn dlawd ar yr Undodiaid am Lyfr Emynau teilwng heb help Iolo. Tebyg nad yw yn ddigon uniongred (?) i foddio rhai, a thebyg hefyd nad yw ei emynau ddim oll yn ogyfuwch mewn gwerth. Y oedd gan Daniel Ddu a'r Canon Silvan Evans feddwl uchel iawn am danynt. A'u mesur wrth yr un llinyn a Psalmau Dafydd, barnaf fi nad oes dim yn yr iaith Gymraeg yn rhagori ar y gore o honynt. Fe ddichon fod Iolo fel Pantycelyn wedi canu gormod. Fodd bynag yr wyf fi'n cytuno a'r Parch. W. Thomas, A.C. (Gwilym Marles) yr hwn sydd wedi ysgrifenu fel hyn: "Y Salmau rhyfedd hyny y gwelwn fwy a mwy o ystyr ynddynt po fwyaf a ganwn arnynt; Salmau y rhai nis gallwn ddywedyd am danynt, pa un ai dyfnder eu hystyr, neu felusder eu cainc, neu nefoldeb eu hyspryd sy fwyaf nodedig."—YMOFYNYDD, 1878, td. 186.—B.C.D.

BYDD o ddyddordeb fe allai i rai o ddarllenwyr YR YMOFYNYDD i glywed gair o hanes cyfieithad Gwilym Marles o linellau Tennyson, y rhai a wnaethant eu hymddangosiad yn Welsh Gossip y *South Wales Daily News*, Chwefror 1af. Fe'u cyfieithwyd ar gais R.J.J., a thraddodwyd hwy mewn pregeth ar "Nefoedd ac Uffern" yn Alltyplaca, wythnos y Pasg, 1865, ac ymddangosasant yn argraffedig am y tro cyntaf yn YMOFYNYDD Mai 1866, tdd. 109—118. Fe welir y llinellau gwreiddiol yn "In Memoriam," liv., yn dechreu,

O yet we trust that somehow good,&c.

ac yn y Gymraeg,—

O'm hyder yw mai rhywfodd da, &c.

Cymdeithas Addysgol y Bobl Ieuainc.

Dymunem gydnabod yn ddiolchgar dderbyniad y symiau canlynol tuag at y Gymdeithas uchod—

	£	s.	c.
Mrs. William James, Brynhyfryd, Llandyssul ...	1	1	0
Mr. John Evans, Solicitor, Llandyssul ...	1	1	0
Rev. Arthur Thomas, Llandyssul	0	10	6
Rev. T. Lloyd Jones, Liverpool	1	0	0

Anfoner pob tanysgrifiadau i'r Trysorydd—MRS. EVANS, Taliesin House, Lampeter; neu i'r Ysgrifenydd, y PARCH. R. C. JONES, Lampeter.

J. D. Lewis, Argraffydd, &c., Gwasg Gomer, Llandyssul.

OLD SHOP, CRIBYN.

D. J. THOMAS,

General Draper, Milliner, Outfitter, Grocer, Ironmonger, and Boot and Shoe Merchant.

A well Selected Stock of Capes, Jackets and Millinery always on hand. Juvenile and Boys' Suits a Speciality.

Agent for E. W. PRATT & Co., Bristol, Manufacturers of the well-known "Holdfast" Brand of Boots and Shoes.

Funeral Wreaths, Crosses, Anchors, Harps, Lyres,

And other designs.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

HARRY COYSH, FLORIST AND SEEDSMAN,

NOTT SQ., CARMARTHEN.

Telegrams—Harry Coysh, Carmarthen.

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School,

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £17 17s., including Free Laundry; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Hockey.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., F. Preston, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Miss J. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montmery, Esq.

THIS SPACE TO LET.

Apply :—

EDITOR,

"Ymofynydd" Office,

Llandyssul.

A REMOVAL

means something more than the mere shifting of one's possessions from one place to another. It is the time when hidden and unsuspected defects and deficiences come to light, and also the best time for them to be remedied.

New Blinds are almost certain to be wanted. Carpets want cleaning and probably altering, Bedding stands in need of purifying and re-making. Furniture requires polishing and perhaps mending and re-upholstering and so on.

All this work we undertake from the packing of the Goods for removal to the putting of everything into proper condition for its position in the New Home.

This work can be done in several ways, but there is only one "Ben. Evans" way and that's — The Best, which is always the cheapest in the end.

Painting & Decorating. Estimates Free

BEN. EVANS & Co. LTD.

SWANSEA.

Telephone, Central—1015.